

Ysgol Llangynnwr

Dyma'n Polisi Gwrth Fwlio. Mae'n egluro sut rydym yn dysgu plant am fwlio a'l effeithiau, sut gallwn eich helpu i gadw'n ddiogel a sut rydym yn helpu pawb i ddatblygu perthnasoedd da yng nghymuned ein hysgol.

Mae bwlio'n ymddygiad angharedig sy'n bwriadu achosi poen i rywun neu brifo eu teimladau. Gall hyn cynnwys: bwrw, cicio, rhoi niwed, dweud geiriau cas, anwybyddu yn bwrpasol, siarad tu ôl cefn, gwneud niwed i eiddo rhywun neu ddefnyddio teclun neu'r rhyngwrwyd i yrru negeseuon cas. Fel arfer mae bwlio yn pigo ar yr un plentyn neu'r un grŵp tro ar ôl tro.

Rydym yn addo siarad â rhieni, staff a disgyblion i sicrhau bod pawb yn gwybod:

- beth ydi bwlio
- sut byddwn ni'n ceisio atal bwlio yn ein hysgol
- beth i wneud os ydy rhywun yn cael ei fwlio neu gweld rhywun arall yn cael ei fwlio

Bydd ein disgyblion yn cael cyfle i ddysgu:

- Sut i fod yn ffrind da a dangos parch i'n gilydd
- Sut i gael help os ydynt yn poeni am fwlio adref neu yn yr ysgol
- Ein bod ni i gyd yn wahanol ac i gyd yn arbennig
- Beth ydi bwlio a sut gall pawb helpu trwy ddweud wrth athrawon os ydyn nhw'n gweld rhywun yn bwlio
- Beth fydd yn digwydd i blant sy'n bwlio
- Sut mae'r cyngor ysgol yn medru helpu i wneud ein hysgol ynddiogel a hapus i bawb

Bydd pawb yn gwybod ein bod ni'n ysgol ofalgar achos :

- Mae gyda ni Bydis Buarth i sicrhau bod amser chwarae'n hapus i bawb
- Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i daclo bwlio a sicrhau bod pawb yn teimlo'n ddiogel
- Rydym yn annog plant i ddweud wrth athrawon os ydyn ni'n anhapus er mwyn datrys y broblem neu gael help
- Rydym yn dathlu Wythnos Parchu Eraill (Wythnos gwrth-fwlio) pob blwyddyn.
- Mae pob aelod o staff yn barod i wrando.



Rydym fel cyngor ysgol yn cytuno gyda polisi gwrth fwlio ysgol Llangynnwr.

Arwyddwyd o ran y cyngor ysgol:

Cadeirydd

Ysgrifennydd.....

Dyddiad.....

